**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**DYDD IAU, 15 MEHEFIN 2017**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug Dydd Iau, 15 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Clive Carver, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Michelle Perfect, Vicky Perfect ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorwyr: David Cox (yn lle Mike Lowe), Ian Dunbar (yn lle Dave Hughes) a Paul Shotton (yn lle Ron Hampson)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Christine Jones, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cynghorydd David Wisinger

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet Rheoli Corfforaethol; y Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Prif Swyddog (Newid Sefydliadol); Uwch Reolwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; a Prif Swyddog Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog y Pwyllgor

## 1. PENODI CADEIRYDD

Bu i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd atgoffa'r Pwyllgor y penderfynodd y Cyngor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol mai'r grŵp Ceidwadol ddylai enwebu Cadeirydd y Pwyllgor. Roedd y grŵp wedi enwebu'r Cynghorydd Clive Carver. Ar ôl cynnal pleidlais, cadarnhawyd yr enwebiad.

**PENDERFYNWYD:**

Cadarnhau'r Cynghorydd Clive Carver fel Cadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

(Ar y pwynt hwn, cadeiriodd y Cynghorydd Carver weddill y cyfarfod)

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd. Enwebwyd y Cynghorydd Paul Johnson gan y Cynghorydd Paul Shotton, ac eiliwyd hyn yn briodol. Ar ôl cynnal pleidlais, cadarnhawyd yr enwebiad. Ni chafwyd enwebiadau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Paul Johnson yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am flwyddyn y cyngor.

Yn dilyn y bleidlais, gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ymuno ag ef mewn munud o dawelwch mewn teyrnged i'r digwyddiadau ym Manceinion a Llundain.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 4. COFNODION

Roedd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 90: Strategaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid – cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at ei gais i gopïo Aelodau i mewn i ymatebion i ymholiadau yr oeddent wedi'u gwneud ar ran trigolion. Cytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i edrych a oedd hyn yn digwydd ac i rannu'r wybodaeth â'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 5. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.05 am)

……………………………………………
**Cadeirydd**